*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1856 (Cy.206)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 30(5) o Ddeddf Iawndal Tir 1973(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2003 ac maent yn dod i rym ar 1 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Symiau taliad colli cartref diwygiedig

**2.** Pan fydd y dyddiad disodli ar y dydd y daw'r Rheoliadau i rym neu wedi hynny—

(a) yr uchafswm taliad colli cartref rhagnodedig at bwrpas adran 30(1) o'r Ddeddf yw £31,000;

(b) yr isafswm taliad colli cartref rhagnodedig at bwrpas adran 30(1) o'r Ddeddf yw £3,100; ac

(c) swm y taliad colli cartref rhagnodedig at bwrpas adran 30(2) o'r Ddeddf yw £3,100.

(**1**) 1973 p.26; mewnosodwyd adran 30 gan adran 68(3) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 p.34, a hynny'n effeithiol o 25 Medi 1991 (*gweler*O.S. 1991/2067, erthygl 3).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) erthygl 2 ac Atodlen 1.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D.Elis-Thomas*
16 Gorffennaf 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn codi uchafswm ac isafswm y taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf Iawndal Tir 1973 ("y Ddeddf") i'r rhai sydd â buddiant perchennog mewn annedd. Maent hefyd yn codi swm y taliad colli cartref sy'n daladwy mewn unrhyw achos arall.

Mae gan berson sy'n cael ei ddisodli o annedd o ganlyniad i bryniant gorfodol neu o dan yr amgylchiadau eraill a nodir yn adran 29 o'r Ddeddf yr hawl i daliad colli cartref. Sefydlwyd y sail bresennol ar gyfer asesu maint taliad colli cartref gan ddiwygiadau i'r Ddeddf a wnaed gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991.

Os digwydd i berson sy'n meddiannu annedd ar y dyddiad disodli fod â buddiant perchennog, mae adran 30(1) o'r Ddeddf yn darparu i swm y taliad colli cartref gael ei gyfrif fel canran o werth y buddiant hwnnw ar y farchnad, a'r swm hwnnw'n ddarostyngedig i uchafswm a lleiafswm.

Mae adran 30(2) yn rhagnodi maint y taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall.

Yn sgil ymgynghoriad, mae rheoliad 2(a) o'r Rheoliadau hyn yn codi'r uchafswm sy'n daladwy o dan adran 30(1) o'r Ddeddf o £15,000 i £31,000 ac mae rheoliad 2(b) yn codi'r lleiafswm o £1,500 i £3,100. Mae rheoliad 2(c) yn codi'r taliad colli cartref sy'n daladwy o dan adran 30(2) o'r Ddeddf, mewn unrhyw achos arall, o £1,500 i £3,100.

Dim ond uchafswm a lleiafswn y taliadau colli cartref sy'n cael eu newid ac nid oes newid i'r ganran daladwy o werth ar y farchnad buddiant y person sy'n cael ei ddisodli.

Mae'r symiau diwygiedig yn gymwys pan fydd dyddiad y disodli yn digwydd ar 1 Medi 2003 neu wedi hynny.